OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 510 (Cy.46)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Cymorth Lleoedd) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2008

Gwnaed - - - -	*26 Chwefror 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cym - -	*27 Chwefror 2008*
Yn dod i rym - -	*19 Mawrth 2008*

Mae Gweinidogion Cymru, ar ôl ymgynghori, yn unol ag adran 3(7) o Ddeddf Addysg (Ysgolion) 1997(**1**), â'r cyrff hynny sy'n ymddangos iddynt hwy yn briodol a chynrychioliadol o ysgolion sydd o dan adran 2(1) o'r Ddeddf honno yn darparu lleoedd drwy gymorth, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 3(1), (3), (4), (5) a (9) o'r Ddeddf honno(**2**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cymorth Lleoedd) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2008 a deuant i rym ar 19 Mawrth 2008.

(2) Mae Rheoliad 3 yn gymwys o ran Cymru mewn cysylltiad â chwestiwn perthnasol.

(3) Ym mharagraff (2) uchod, ystyr "cwestiwn perthnasol" yw cwestiwn o dan Reoliadau Addysg (Mân Dreuliau) 1997(**3**) ynghylch a oes gan rieni disgybl a gynorthwyir hawl i gael grant gwisg ysgol o dan Ran II, neu grant teithio o dan Ran III, o'r Rheoliadau hynny ac—

(a) sy'n codi mewn cysylltiad â blwyddyn ysgol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2007; a

(b) sydd heb ei benderfynu ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

(**1**) 1997 p. 59. Diwygiwyd adran 3 gan adran 130 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31).

(**2**) Yr oedd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 3 yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran Cymru: *gweler* erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 a'r cofnod mewn cysylltiad â Deddf Addysg (Ysgolion) 1997 yn Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd y swyddogaethau wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) O.S. 1997/1969. Yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1998/1585, O.S. 1999/1505, O.S. 2000/1939 (Cy. 137), O.S. 2001/2708 (Cy. 227), O.S. 2002/1880 (Cy. 189), O.S. 2003/1779 (Cy.193), O.S. 2004/1807 (Cy.195) ac O.S. 2005/2837 (Cy. 201).